

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Beryl Morris (Cefn Berain) yn dilyn marwolaeth ei brawd, Robin, yr wythnos ddiwethaf. Nid dyma'r brofedigaeth gyntaf iddi gyfarfod eleni, a gweddiwn y bydd yn adnabod eto heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Gwynedd Davies (Peniel) a'r teulu ym marwolaeth ei frawd, Lloyd, oedd yn byw yn North Carolina. Cyflwynwn y teulu hwn hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Anfonwn ein cofion at Huw B. Davies (Saron) a Lloyd Edwards (Groes) fu yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd yn ddiweddar. Mae'n dda cael adrodd fod y ddau bellach wedi dod adre o'r ysbyty a'u bod yn gwella. Mae eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd a gweddiwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau'r Fro i'r rhai sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig ond nad ydynt am gael eu henwi yn Llais Bro Aled!!

## Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.

**Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn dydd Mawrth, Ebrill 11<sup>eg</sup>, os gwelwch yn dda?

## Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yng Nghorwen dydd Mercher, Mai 10<sup>fed</sup>. Os oes gennych ddiddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261 erbyn Mai 3<sup>ydd</sup>, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin....!

## I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 25ain am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Meredydd. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **'SUT MAE CRISTNOGION YN WYNEBU PRYDERON?'** yng nghwmni Ben Nuss yn Festri Llansannan nos Fercher, Ebrill 26ain am 7.30.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen dydd Mercher, Mai 10fed gyda Bethan Davies, Port Talbot yn annerch am 2.00 ac Arfon Jones, Caerdydd am 5.30.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yn Saron, dydd Sul, Mai 21ain am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 53:4-6 (BCND tud.670 / BCN tud.611)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9<sup>fed</sup> Ebrill 2017

## Darlleniad y Dydd

Mathew 21:6-10

(BCND tud.24 / BCN tud.22)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i chi gyd i'r oedfaon ym Mro Aled ar Sul y Blodau. Gweddiwn y byddwn yn gallu gadael ein beichiau a'n trafferthion o flaen Yr Arglwydd gan wybod yn sicr ei fod yn Dduw sy'n gallu dal y pwysau i gyd ac sy'n rhoi gorffwys i'r blinedig. Gweddiwn, trwy wneud hyn, y byddwn ni'n dysgu gan yr Arglwydd ac yn pwyso arno fwy a mwy bob dydd (Mathew 11:30).

Dwi'n mwynhau gwyllo ffilmiau! Yn fwy na hynny, dwi'n mwynhau mynd i'r sinema i'w gwyllo nhw – mae 'na rywbeth am y profiad sy'n gwneud i'r ffilmiau aros yn y cof. Mae'n rhaid i mi gyfaddef hefyd fy mod i'n eitha mwynhau gwyllo'r ysbysebion ar gyfer y ffilmiau sydd i ddod – i ddeud y gwir dwi'n troi'n blentyn yn y sinema, eisiau popcorn a diod hefyd! Mae'r trailers yma yn rhoi cipolwg 2 funud o'r ffilm awr a hanner er mwyn dangos i ni pa fath o ffilm fydd hi, ac y bydd hi'n un gwerth ei gwyllo. Dim ots beth ydy cynnwys y trailer, ar y cyfan, barn reit simsan o'r ffilm gawn ni o'r trailer – dim ond hyn a hyn fedran nhw dangos mewn amser mor fyr. Sgwn i faint ohonom sydd wedi cael ein siomi gan ffilm, er i'r hysbyseb fod mor dda? "Roedd y darnau gorau yn y trailer". Neu faint ohonom sy'n cyffroi wrth weld y rhannau cyffrous o'r hysbyseb yn y ffilm ei hun?

Os mai darlleniad wythnos diwethaf o Sechareia 9 oedd ein trailer ni, Mathew 21:6-10 i ni ydy'r ffilm ei hun. Lle mae'r Proffwyd yn rhoi cipolwg i ni o'r digwyddiadau, mae Mathew yn dangos i ni'r cyfan yn ei gyd-destun! Dyma Iesu yn marchogaeth yn fuddugoliaethus i mewn i Jerwsalem, gyda'r dorf yn gweiddi mai y Fo ydy'r Meseia – yr un oedd wedi cael ei addo iddyn nhw! Mae'r ffilm wedi rhoi gymaint mwy i ni na'r trailer. Yn Iesu, ryda ni'n cael cymaint mwy na chipolwg o gymeriad Duw. Ym mherson Iesu, ryda ni'n gweld Duw yn dod fel brenin buddugoliaethus i'n hachub ni, garcharorion. Ryda ni'n gweld Iesu ar Sul y Blodau fel Brenin ar y byd, fel Brenin sy'n haeddu cael ei addoli, wedi ei godi uwchben pob enw arall. Wrth ddarllen a chofio am yr hanes yma, rhaid i ni gofio mai dim ond cipolwg ar ysblander Brenin y Nef ydy hyn!

Tybed a ydym ni'n cofio'n ddigon aml fod Iesu yn Frenin arnom ni? Beth am i ni yr wythnos yma ddarllen amdano, myfyrio arno, ac addoli'r ffaith fod Iesu yn Frenin uwch pob un arall?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 9<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Llun – 10<sup>fed</sup> ➤ **Gwaith Cwrs Ysgolion Sul yr Henaduriaeth** – Cofiwch fod angen mynd â'r cyweithiau i Capel Llanefydd heno rhwng 7.00 ac 8.00. Cofiwch roi enw'r capel a rhestr o enwau'r plant ar y gwaith.
- Mawrth – 11<sup>eg</sup> ➤ **Myfyrdod y Pasg a Chyfarfod Gweddi i'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 12<sup>fed</sup> ➤ **Word Alive** – Gŵyl Gristnogol (Ebrill 8fed-13eg) ym mharc gwyliau Prestatyn Sands (Pontins), Prestatyn LL19 7LA. Mwy o fanylion ar gael ar y wefan [wordalive.org](http://wordalive.org). Mae'n fwrriad gan rai o'r Ofalaeth i fynd i'r addoliad fydd yn cychwyn am 6.30 ar y nos Fercher. Os hoffech gyfarfod eraill o'r Ofalaeth yno, dewch at brif ddrws Pontins erbyn 6.00. Tocyn nos: £10.00.
- Iau – 13<sup>eg</sup> ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 14<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa Bore'r Groglith i'r Fro** – Oedfa gymun yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 11<sup>eg</sup> ➤ Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant ond cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 9<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghapel Cefn Berain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Thomas Evans Williams.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwasanaeth y Pasg yn Llanefydd am 10.00 dan ofal yr Ysgol Sul, a Gwasanaeth Pasg gyda Gwion a'r ieuencid am 6.00. Bydd Gwasanaeth wedi ei drefnu yng Nghefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**